Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Heol y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn:- 01554 832101
Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies

07/10/2021

## Maes Parcio

Annwyl rieni a gofalwyr,

Yn dilyn adolygiad o'n gweithdrefnau rheoli traffig, hoffwn rannu'r gweithdrefnau canlynol i sicrhau mynediad diogel i'r ysgol ac oddi yno. Pwrpas y weithred hon yw sicrhau amgylchedd diogel i blant a rhieni / gwarcheidwaid sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn ddyddiol.




Gofynnwn yn garedig i chi beidio â theithio'n gyflymach na 5 milltir yr awr ar dir yr ysgol.

**Ni chaniateir i rieni barcio ym maes parcio'r staff** - mae rhieni i ddefnyddio'r maes parcio mawr. Gyrrwch yn ddiogel ac yn araf ger yr ysgol a pheidiwch â pharcio mewn ardaloedd sy'n rhwystro llif y traffig.



**Parcio i'r anabl** - Os ydych chi'n ddeiliad bathodyn glas ac yn ymweld â'r ysgol, mae bae parcio dynodedig i'r anabl ar y chwith wrth i chi fynd i mewn i faes parcio'r ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi beidio â defnyddio'r cilfachau hyn oni bai bod gennych fathodyn glas dilys.



**Cyfrifoldeb rhieni** - Dylai disgyblion aros gyda'u rhieni / gwarcheidwaid wrth fynd i'w ceir. Ar ôl i'r plant gael eu trosglwyddo gan y staff i'w rhieni ar ddiwedd y dydd, eich cyfrifoldeb chi wedyn yw sicrhau eu diogelwch. Gofynnwn yn garedig i chi gadw llygad ar eich plant a sicrhau nad ydyn nhw'n rhedeg o gwmpas. **Cadwch at y prif balmant a chroeswch y maes parcio trwy'r groesfan Sebra / prif lif yng nghanol y maes parcio**. Mae llawer o blant a rhieni yn croesi'r heol/ ffordd mewn manau peryglus! Mae ceir hefyd yn parcio'n anystyriol neu ar linellau igam-ogam a gall hyn achosi problemau gwelededd i gerddwyr o bob oed sy'n croesi'r ffordd!

A allech sicrhau os gwelwch yn dda nad ydych yn rhwystro'r trigolion leol rhag dod i mewn neu adael eu cartrefi pan fyddwch chi'n dod â'ch plentyn / plant i'r ysgol neu'n eu casglu. PEIDIWCH Â PARCIO DROS DREIF Y PRESWYLWYR AR UNRHYW ADEG.

Gofynnwn yn garedig i chi rannu'r wybodaeth hon gyda phob aelod o'r teulu sy'n gollwng neu'n casglu plant o'r ysgol.

Rwy'n deall ei bod yn brysur yn y boreau a'r prynhawniau ac y gall parcio, fel yn y mwyafrif o ysgolion, fod yn anodd, ond mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch plant, rhieni, staff ac ymwelwyr o amgylch maes parcio'r ysgol.

***C Davies***

Pennaeth / *Headteacher*